

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Papur ymchwil

Araith y Frenhines 2013 a Bil drafft Cymru

Mai 2013

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/1039
Rhif dogfen:13/033

Cynulliad Cenedlaethol Cymru Papur ymchwil

Araith y Frenhines 2013 a Bil drafft Cymru

Mai 2013

Owain Roberts, Alys Thomas a Siân Richards

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r holl Filiau a Biliau drafft a gafodd eu cynnwys yn Araith y Frenhines 2013, ynghyd â manylion y Biliau a gariwyd drosodd o'r Sesiwn flaenorol a'r Biliau drafft presennol sydd o ddiddordeb, gyda phwyslais arbennig ar y cynigion hynny sy'n effeithio ar Gymru yn y meysydd a ddatganolwyd. Mae'r papur hefyd yn cynnwys gwybodaeth gefndir ar wahân a chrynodeb manwl o'r Bil disgwylidig, Bil drafft Cymru..

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Crynodeb

Traddodwyd Araith y Frenhines 2013 gerbron Senedd y DU ar 8 Mai 2013. Roedd yn cynnwys manylion am fwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno 18 Bil a dau Fil drafft yn ystod Sesiwn Seneddol 2013-14. Yn eu plith mae *Bil drafft Cymru* sy'n bwriadu newid hyd cyfnodau'r Cynulliad o bedair i bum mlynedd a newid rhai o'r rheolau sy'n gysylltiedig ag ethol Aelodau'r Cynulliad.

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r holl Filiau a Biliau drafft a gafodd eu cynnwys yn Araith y Frenhines 2013, ynghyd â manylion y Biliau a gariwyd drosodd o'r Sesiwn flaenorol a'r Biliau drafft presennol sydd o ddiddordeb, gyda phwyslais arbennig ar y cynigion hynny sy'n effeithio ar Gymru yn y meysydd a ddatganolwyd. Mae'r papur hefyd yn cynnwys gwybodaeth gefndir ar wahân a chrynodeb manwl o'r Bil disgwylidig, *Bil drafft Cymru*.

Paratowyd y papur hwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad cyn ymddangosiad Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrh. David Jones AS, yn y cyfarfod llawn ar 22 Mai 2013.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Bil drafft Cymru	2
2.1.	Cefndir y Bil drafft	2
2.2.	Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol y Cynulliad yn y dyfodol	3
2.3.	Ymatebion i'r Papur Gwyrdd.....	4
3.	Biliau a Biliau drafft i'w cyflwyno yn ystod Sesiwn 2013-14	6
3.1.	Bil Dŵr.....	6
3.2.	Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 7	7
3.3.	Bil Gofal	9
3.4.	Bil Dadreoleiddio	10
3.5.	Bil Mesothelioma	11
3.6.	Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol	12
3.7.	Bil Ynni.....	13
3.8.	Bil drafft Hawliau Defnyddwyr	13
3.9.	Bil Hapchwarae (Trwyddedu a Hysbysebu)	14
3.10.	Bil Pensiynau	14
3.11.	Bil Adsefydlu Troseddwyr.....	15
3.12.	Bil Cyfraniadau Yswiriant Gwladol	16
3.13.	Bil Eiddo Deallusol	16
3.14.	Bil Hybrid Rheilffordd Cyflymder Uchel 2	16
3.15.	Bil Rheilffordd Cyflymder Uchel (Paratoi)	17
3.16.	Bil Mewnfudo.....	17
3.17.	Bil Diwygio Amddiffyn.....	18
3.18.	Bil Cymeradwyaethau'r UE.....	18
3.19.	Bil Gogledd Iwerddon.....	18
4.	Biliau a gariwyd drosodd o Sesiwn 2012-13	20
4.1.	Bil Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw).....	20
4.2.	Bil Plant a Theuluoedd	20
4.3.	Bil Gwasanaethau Ariannol (Diwygio'r Banciau).....	21
4.4.	Bil Cyllid (Rhif 2).....	21
5.	Biliau drafft a gyhoeddwyd ac sydd o ddiddordeb	22
5.1.	Bil Anifeiliaid Gwylt mewn Sycasau	22
5.2.	Galw Aelodau Seneddol yn Ôl.....	23
5.3.	Lobïo.....	23
5.4.	Braint Seneddol	24

Araith y Frenhines 2013 a Bil drafft Cymru

1. Cyflwyniad

Traddodwyd Araith y Frenhines 2013 gerbron Senedd y DU ar **8 Mai 2013**.¹ Roedd yr Araith yn amlinellu bwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno **18 Bil a dau Fil drafft** arall yn ystod Sesiwn Seneddol 2013-14. Mae'r Biliau hyn yn ychwanegol at y **pedwar Bil a oedd yn destun cynigion cario drosodd** yn ystod Sesiwn flaenorol 2012-13. Sesiwn 2013-14 yw Sesiwn olaf ond un y Senedd gyfredol cyn Etholiad Cyffredinol nesaf y DU ar 7 Mai 2015.

Mae rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU hefyd yn cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi *Bil drafft Cymru* yn ystod y Sesiwn gyfredol. Ei nod yw newid hyd cyfnodau'r Cynulliad o bedair i bum mlynedd a newid rhai o'r rheolau sy'n gysylltiedig ag ethol Aelodau'r Cynulliad.

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r holl Filiau a Biliau drafft a gafodd eu cynnwys yn Araith y Frenhines 2013, ynghyd â manylion y Biliau a gariwyd drosodd o'r Sesiwn flaenorol a'r Biliau drafft presennol sydd o ddiddordeb, gyda phwyslais arbennig ar y cynigion hynny sy'n effeithio ar Gymru yn y meysydd a ddatganolwyd. Mae'r papur hefyd yn cynnwys gwybodaeth gefndir ar wahân a chrynodeb manwl o'r Bil disgwylidig, *Bil drafft Cymru*.

¹ GOV.UK, [Datganiad llafar i Senedd y DU: Araith y Frenhines 2013](#), 8 Mai 2013 [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

2. Bil drafft Cymru

Mae Araith y Frenhines yn datgan y bydd deddfwriaeth ddrafft yn cael ei chyhoeddi ynghylch trefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.² Bydd y Bil drafft yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud ag:

- estyn **cyfnodau penodol** y Cynulliad **o bedair i bum mlynedd** i'w gwneud yn llai tebygol y bydd etholiadau'r Cynulliad yn cyd-daro ag etholiadau seneddol;
- **codi'r gwaharddiad ar ymgeiswyr deuol** i ganiatáu i ymgeiswyr yn etholiadau'r Cynulliad sefyll mewn etholaeth ac ar restr ranbarthol;
- **atal 'swyddi dwbl'**, drwy wahardd Aelodau'r Cynulliad rhag bod yn Aelodau Seneddol hefyd.

Cyhoeddir Biliau Drafft yn San Steffan gan yr adran sy'n eu noddi (Swyddfa Cymru yn yr achos hwn) ac o bryd i'w gilydd gallant fod yn destun gwaith craffu cyn deddfu gan un o Bwyllgorau Dethol Tŷ'r Cyffredin neu Gyd-bwyllgor Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Er enghraifft, bu Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon Tŷ'r Cyffredin yn craffu cyn deddfu ar *Fil drafft Gogledd Iwerddon (Darpariaethau Amrywiol)* rhwng **mis Chwefror a mis Mawrth 2013**.³

2.1. Cefndir y Bil drafft

Cyhoeddir y Bil arfaethedig, *Bil drafft Cymru*, yn sgil datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar **12 Mawrth 2013** gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrh. David Jones AS. Dangosodd y datganiad fod yr Ysgrifennydd Gwladol o blaid bwrw ymlaen â chynigion sy'n ymwneud â hyd cyfnodau'r Cynulliad, ymgeiswyr deuol a mandadau lluosog:

First, **we will move the Assembly from four to five-year fixed terms**. The term of the current Assembly is, exceptionally, five years, but the Assembly is set to revert to four-year terms after the next Assembly elections in 2016. A permanent move to five-year terms would make a co-incidence between parliamentary and Assembly elections in 2020 (and every twenty years thereafter) less likely.

Second, **we will end the prohibition on candidates at Assembly elections standing in both a constituency and a region at the same time**. The Government believes that, in principle, candidates should not be barred from standing in a constituency and a region, and the current prohibition impacts disproportionately on smaller parties.

Third, **we will prohibit Assembly Members from simultaneously sitting as Members of the House of Commons**. The Government does not believe that one person can adequately serve two sets of constituents. **This prohibition would not apply to members of the House of Lords** [*Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil*].⁴

² GOV.UK, [Datganiad llafar i Senedd y DU: Araith y Frenhines 2013](#), 8 Mai 2013 [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

³ Senedd y DU, Pwyllgor Dethol Materion Gogledd Iwerddon Tŷ'r Cyffredin, [Mesur drafft Gogledd Iwerddon](#), Mawrth 2013 [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

⁴ [Dadl yn Nhy'r Cyffredin 12 Mawrth 2013 c8WS](#)

O ran codi'r gwaharddiad ar ymgeiswyr deuol, dywedwyd bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi rhesymau ychwanegol dros safbwynt Llywodraeth y DU ar y mater hwn:

The changes made in 2006 were really partisan changes that were put in place to favour the Labour party. That is what we are rectifying now. We're rectifying it to reintroduce the system that existed back in 1999, which I think most parties apart from the Labour party thought was fair and which importantly, respected political commentators thought was fair.⁵

O ran mandadau lluosog, dywedwyd hefyd fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud, pe bai AC neu AS yn ennill etholiad i'r sefydliad arall, byddai modd iddo wasanaethau yn y ddau sefydliad 'fwy na thebyg' am hyd at flwyddyn, gan ychwanegu:

If it were a relatively short period we would expect [there] would be a transitional period allowed so one person could leave one institution and go to the other ... We certainly don't want to stop anyone moving from one institution to the other but we don't think it's right that somebody should be elected with a view to sitting continuously in both bodies.⁶

Mae mwy o wybodaeth am gyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Mawrth 2013, a'r ymateb iddo, ar gael ym [Mhapur y Gwasanaeth Ymchwil: Newidiadau arfaethedig i drefniadau etholiadol y Cynulliad](#).

2.2. Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol y Cynulliad yn y dyfodol

Nodwyd bod angen Bil yn y maes hwn am y tro cyntaf yn sgil cynlluniau i leihau nifer yr Aelodau Seneddol o Gymru o 40 i 30 erbyn Etholiad Cyffredinol nesaf y DU ac i bennu cyfnodau seneddol penodol o bum mlynedd yn Nhŷ'r Cyffredin. Ar **21 Mai 2012**, lansiodd y Gwir Anrh. Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, ymgynghoriad 12 wythnos o hyd am [Bapur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol y Cynulliad yn y dyfodol](#). Yn ôl y datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd ochr yn ochr ag ef, roedd y Papur Gwyrdd yn:

amlinellu opsiynau a chynigion y Llywodraeth ar gyfer newidiadau i gyfansoddiad y Cynulliad, yn cynnwys nifer etholaethau'r Cynulliad, hyd tymhorau'r Cynulliad, hawl ymgeiswyr i sefyll yn yr un etholiad mewn etholaeth Cynulliad a rhanbarth a hawl Aelodau'r Cynulliad i eistedd yn Senedd San Steffan hefyd ar yr un pryd.⁷

Yn arbennig, roedd y Papur Gwyrdd yn gofyn am safbwyntiau ynghylch: newid etholaethau'r Cynulliad; hyd cyfnodau'r Cynulliad; ymgeiswyr deuol; a mandadau lluosog.

Gan fod y camau arfaethedig i adolygu ac i leihau nifer yr etholaethau seneddol wedi'u gohirio, fodd bynnag, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol na fydd

⁵ Newyddion y BBC, [Betsan's Blog: Answering the Clwyd West Question](#), 12 Mawrth 2012 [cyrchwyd ar 9 Mai 2013]

⁶ Wales Online, [Ban lifted on AMs standing for both constituency and regional seat](#), 12 Mawrth 2013 (cyrchwyd ar 9 Mai 2013)

⁷ Swyddfa Cymru, [Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol](#), Mai 2012, tudalen 8 [cyrchwyd ar 9 Mai 2013]

Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig i etholaethau'r Cynulliad:

As a result of the Electoral Registration and Administration Act 2013, the four UK Boundary Commissions will now report in 2018 on their recommendations for new parliamentary constituencies. The boundaries of parliamentary and Assembly constituencies will remain the same until then, and there is no longer an immediate need to re-establish the link between the two sets of constituencies. **The Government does not therefore intend to proceed with the changes to Assembly constituencies proposed in the Green Paper [Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil].**⁸

Er bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru yn ddiweddar ('Comisiwn Silk')⁹ i adolygu'r trefniadau cyllidol a chyfansoddiadol yng Nghymru, dywed y Papur Gwyrdd na fydd materion sy'n ymwneud ag ethol Aelodau'r Cynulliad yn rhan o gylch gwaith y Comisiwn¹⁰ ac y bydd angen ymdrin â'r rhain ar wahân.

Hefyd, mae **etholiadau'r Cynulliad yn fater a gadwyd yn ôl** oherwydd nad ydynt yn rhan o gwmpas pwerau deddfu'r Cynulliad o dan Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.¹¹

2.3. Ymatebion i'r Papur Gwyrdd

Yn sgil cyhoeddi'r Papur Gwyrdd, beirniadodd y Prif Weinidog y cynigion sy'n ymwneud â newid etholaethau'r Cynulliad, gan ddweud:

There is no mandate for this. The electoral system for the assembly is a matter for the people of Wales and no one else. The Prime Minister has assured me that there would be no change to future electoral arrangements without the agreement of the Assembly.¹²

Ailadroddwyd y safbwyntiau hyn wedyn yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ail ran cylch gwaith Comisiwn Silk ynghylch pwerau'r Cynulliad. Roedd ei phapur tystiolaeth yn nodi mai dim ond gyda chaniatâd y Cynulliad y dylid gwneud newidiadau i drefniadau etholiadol y Cynulliad, a chyda chefnogaeth mandad amlwg gan Etholiad Cyffredinol y DU.¹³ Ychwanegodd yn ei hymateb:

O ran Etholiadau, San Steffan ddylai fod yn gyfrifol am ddeddfu ar etholiadau i Dŷ'r Cyffredin a Senedd Ewrop. Ond, fel y dadleuodd Llywodraeth Cymru yn ei hymateb i bapur ymgynghori Swyddfa Cymru ar drefniadau etholiadol y dyfodol i Gynulliad Cymru, ni ddylid cadw pwerau Senedd y DU mewn perthynas ag etholiadau i'r Cynulliad, neu i awdurdodau lleol Cymru (ar wahân i'r Eithriadau i bwerau deddfwriaethol presennol y Cynulliad, mewn perthynas ag

⁸ [Dadl yn Nhy'r Cyffredin 12 Mawrth 2013 c8WS](#)

⁹ Mae mwy o wybodaeth am Gomisiwn Silk ar gael yn y papur ymchwil [Comisiwn Silk](#) a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ym mis Tachwedd 2011.

¹⁰ Swyddfa Cymru, [Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol](#), Mai 2012 [cyrchwyd ar 9 Mai 2013]

¹¹ [Deddf Llywodraeth Cymru 2006](#) (Pennod 32) [cyrchwyd ar 9 Mai 2013]

¹² Newyddion y BBC, [Welsh Assembly voting: Cheryl Gillan proposes new seats for 2016 election](#), 21 Mai 2012 [cyrchwyd ar 9 Mai 2013]

¹³ Llywodraeth Cymru, [Tystiolaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru](#), 18 Chwefror 2013 [cyrchwyd ar 9 Mai 2013]

etholfraint a chofrestru etholiadol, a ddylai gael eu cadarnhau fel materion a gedwir). **Felly dylai fod gan y Cynulliad bŵer cyffredinol i ddeddfu ar etholiadau Cymru (gan gynnwys gweinyddu etholiadau, telerau swyddi cyngorwyr lleol, a systemau pleidleisio), yn ddarostyngedig i'r pwerau hynny a gedwir. Mae'n bosibl byddai angen gweithdrefn arbennig, fel mwyafrif arbennig, os yw'n dewis deddfu ar etholiadau'r Cynulliad.** [pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil].¹⁴

Roedd y Prif Weinidog, fodd bynnag, yn llai beirniadol ynghylch cynigion eraill a geir yn y Papur Gwyrdd. Caiff y rhain eu rhoi ar waith yn awr ym *Mil drafft Cymru*. Mewn dadl ar y Papur Gwyrdd yn y Cynulliad ar **12 Mehefin 2012**, dywedodd y Prif Weinidog:

Nid wyf am fod yn gwbl negyddol am y Papur Gwyrdd. Rwy'n croesawu, er enghraifft, yr ymgynghoriad ar a ddylai'r Cynulliad gael tymhorau o bum mlynedd. Y farn gyffredinol yn y Siambr yw y dylid osgoi gwrthdaro ag etholiadau cyffredinol y DU.¹⁵

Trafodwyd y Papur Gwyrdd hefyd yn yr Uwch-Bwyllgor Cymreig yn Nhŷ'r Arglwyddi ar **18 Mehefin 2012**¹⁶ ac yn Neuadd San Steffan yn Nhŷ'r Cyffredin ar **3 Gorffennaf 2012**.¹⁷

Daeth ymgynghoriad Swyddfa Cymru ar y Papur Gwyrdd i ben ar **13 Awst 2012**. Cafwyd cyfanswm o 68 o ymatebion a chyhoeddwyd crynodeb ohonynt gan Swyddfa Cymru ym mis **Tachwedd 2012**.¹⁸ Cafwyd ymatebion i'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru, grwpiau'r pedair plaid yn y Cynulliad, ymateb ar wahân gan Geidwadwyr Cymru, tri Aelod Seneddol¹⁹ sy'n cynrychioli etholaethau yng Nghymru ac 11 o Aelodau'r Cynulliad²⁰, ymhlith eraill.

¹⁴ Llywodraeth Cymru, [Tystiolaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru](#), 18 Chwefror 2013 [cyrchwyd ar 9 Mai 2013]

¹⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Cyfarfod Llawn](#), 12 Mehefin 2012 [cyrchwyd ar 9 Mai 2013]

¹⁶ [Dadl yn Nhy'r Arglwyddi 18 Mehefin 2012 cGC125](#)

¹⁷ [Dadl yn Nhy'r Cyffredin 3 Gorffennaf 2012 c187WH](#)

¹⁸ Swyddfa Cymru, [Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol: Crynodeb o'r ymatebion](#), Tachwedd 2012 [cyrchwyd ar 9 Mai 2013]

¹⁹ Guto Bebb, Madeline Moon a Peter Hain

²⁰ Christine Chapman, David Rees, Janice Gregory, Julie James, Julie Morgan, Ken Skates, Leighton Andrews, Lesley Griffiths, Mark Isherwood, Mike Hedges, Jeff Cuthbert

3. Biliau a Biliau drafft i'w cyflwyno yn ystod Sesiwn 2013-14

Yn ogystal â *Bil drafft Cymru*, roedd Araith y Frenhines yn cynnwys **18 Bil a Bil drafft** arall y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu'u cyflwyno yn ystod Sesiwn 2013-14. Ceir crynodeb ohonynt yn eu tro isod. Rhestrir y Biliau hynny sy'n debygol o fod yn fwyaf perthnasol i Gymru ac i'r Cynulliad i gychwyn:

3.1. *Bil Dŵr*

Nod y Bil yw cryfhau'r sector dŵr yn wyneb peryglon naturiol fel sychder neu lifogydd a rhoi mwy o ddewis i gwsmeriaid. Yn benodol, bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau i:

- ddiwygio'r sector dŵr drwy roi mwy o ddewis yn y farchnad fanwerthu drwy ganiatáu i bob busnes, elusen a chwsmer yn y sector cyhoeddus newid ei gyflenwr dŵr neu garthffosiaeth;
- cydgrynhoi tri chynllun trwyddedu (trwyddedu tynnu a chronni dŵr, cymeradwyo tramwyfeydd pysgod a chaniatáu amddiffynfeydd rhag llifogydd) yn y Gyfundrefn Trwyddedu Amgylcheddol;
- newid y mesurau presennol o ran llifogydd a draenio i annog pobl i ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy;
- cydgysylltu'n well y camau i reoli adnoddau dŵr ac i gynllunio ar gyfer sychder.

Cyhoeddwyd ***Bil Dŵr drafft*** gan Caroline Spelman AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar y pryd, ar **10 Gorffennaf 2012**, yn sgil yr ymrwymiad i ddeddfu a geir yn y ***Papur Gwyn 'Water for Life'***.

O gofio bod gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol dros 'Ddŵr ac amddiffyn rhag llifogydd' o dan Bwnc 19 Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*²¹, **mae'n debygol y bydd Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei sbarduno yn y Cynulliad pan gaiff y Bil ei gyflwyno i Senedd y DU.**

Gallai'r darpariaethau yn y Bil ynghylch rhoi mwy o ddewis yn y sector dŵr fod yn arbennig o ddadleuol oherwydd nad yw Llywodraeth Cymru'n rhannu'r un safbwyntiau â Llywodraeth y DU ynghylch manteision posib cystadleuaeth. Yn ei ***'Datganiad Sefyllfa ar y Polisi Strategol ar Ddŵr'***, dywedodd Llywodraeth Cymru nad yw 'wedi'i hargyhoeddi eto' ynghylch manteision cystadleuaeth, ac:

Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn credu bod achos teilwng dros wahanu busnesau adwerthu a rhwydwaith yn y sector dŵr na chreu mwy o gystadleuaeth ar gyfer cwsmeriaid domestig.²²

²¹ *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Pennod 32) [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

²² Llywodraeth Cymru, *Datganiad Sefyllfa ar y Polisi Strategol ar Ddŵr 2011*, Rhagfyr 2011 [cyrchwyd ar 8 Mai 2011]

Mae Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad wrthi'n cyflawni ymchwiliad byr i *Bolisi Dŵr yng Nghymru*,²³ gan ystyried goblygiadau'r Bil drafft i Gymru, yn enwedig o ran cystadleuaeth yn y farchnad annomestig, a'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael â materion fforddiadwyedd ar gyfer aelwydydd.

Roedd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru²⁴ yn nodi bod datblygu strategaeth ddŵr yn gam allweddol i'r weinyddiaeth bresennol.

3.2. *Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma*

Mae'r Bil yn cynnwys nifer o fesurau i geisio mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, priodas dan orfod, cŵn peryglus ac arfau tanio anghyfreithlon a ddefnyddir gan gangiau ac mewn troseddu cyfundrefnol.

Dyma brif elfennau'r Bil:

- disodli a chywasgu'r 19 pŵer presennol sy'n ymdrin ag **ymddygiad gwrthgymdeithasol** i greu chwe phŵer cyflymach, mwy effeithiol, a fydd yn rhoi pŵer i ddiodefwrwr sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus drwy'r Sbardun Cymunedol newydd,²⁵ ac yn rhoi mwy o lais iddynt o ran y math o gosb y bydd troseddwr yn ei chael tu allan i'r llys drwy'r Rhwymedi Cymunedol newydd;
- cryfhau'r pwerau i fynd i'r afael â **pherchenogion cŵn anghyfrifol** drwy estyn y drosedd o fod yn berchen ar / yn gyfrifol am gi sydd allan o reolaeth ac sy'n beryglus mewn man cyhoeddus i fannau preifat hefyd; bydd hefyd yn darparu bod ymosodiad gan gi ar gi cymorth yn drosedd waethygedig;
- cynyddu'r gosb uchaf ar gyfer mewnforio/allforio **arfau tanio** yn anghyfreithlon a chreu trosedd newydd, sef bod ag arfau tanio yn eich meddiant i'w gwerthu neu'u trosglwyddo;
- mynd i'r afael â **phriodas dan orfod** drwy beri iddi fod yn drosedd droseddol a thrwy droseddoli torri'r Gorchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod;
- sefydlu **Corff Adolygu Cydnabyddiaeth Ariannol yr Heddlu** yn lle Bwrdd Negodi'r Heddlu;

²³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *Ymchwiliad i bolisi dwr yng Nghymru*, Ionawr 2013 [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

²⁴ Llywodraeth Cymru, *Rhaglen Lywodraethu*, 2011, tudalen 4 [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

²⁵ Nod y '**sbardun cymunedol**' yw rhoi hawl i ddiodefwrwr, cymunedau a busnesau fynnu bod camau'n cael eu cymryd o ran cwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi'u hanwybyddu dro ar ôl tro. Ar hyn o bryd, mae'n cael ei dreialu ym Manceinion, Brighton a Hove, Richmond upon Thames a West Lindsey a Boston.

- rhoi **cyfrifoldeb i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu dros gomisiynu gwasanaethau i ddiodefwr, a chywiro'r anomaleddau yn y fframwaith rheolaethau ariannol ar gyfer prif swyddogion ac yn y trefniadau ar gyfer awdurdodi swyddogion arfau tanio Heddlu Trafnidiaeth Prydain;**
- sicrhau bod y **pwerau i ddiogelu'r ffiniau rhag terfysgaeth** a geir yn Atodlen 7 i *Ddeddf Terfysgaeth 2000* yn taro gwell cydbwysedd rhwng yr angen i ddiogelu'r cyhoedd a diogelu rhyddidau unigol;
- cryfhau hyder y cyhoedd yn ein **trefniadau estraddodi**, a gwella'u heffeithiolrwydd gweithredol, drwy ddiwygio *Deddf Estraddodi 2003*,²⁶ gan gynnwys rhoi argymhellion adolygiad Syr Scott Baker ar waith;
- darparu i'r **Swyddfa Twyll Difrifol gael ei hadolygu'n annibynnol** gan Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi;
- gwella cyflymder ac effeithlonrwydd ymateb y system gyfiawnder i **fân droseddu** drwy alluogi'r heddlu i erlyn mân droseddau diwrthwynebiad sy'n ymwneud â dwyn o siopau;
- estyn cwmpas y **cynllun statudol i ddiogelu tystion** i gwmpasu unigolion eraill sy'n agored i niwed;
- sefydlu prawf 'dieuogrwydd clir' yn rhan o'r gyfraith at ddibenion penderfynu a yw unigolyn yn gymwys i gael ei ddigolledu am **gamweinyddu cyfiawnder**;
- sicrhau bod troseddwr sy'n cael eu dedfrydu i garchar yn cyfrannu at gostau cynorthwyo diodefwr drwy ddiddymu pŵer y llysoedd ynadon i ychwanegu diwrnodau ychwanegol at ddedfryd o garchar yn lle'r Gordal Dioddefwr.

O ran y cynigion ynghylch cŵn peryglus, cyhoeddwyd y ***Bil drafft (Diwygio) Cwn Peryglus*** gan Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar **9 Ebrill 2013**. Roedd y Bil drafft yn cynnwys darpariaethau i estyn troseddau o dan *Ddeddf Cŵn Peryglus 1991*²⁷ i fannau preifat ac i ymosodiadau ar gŵn cymorth, yn ogystal ag egluro'r asesiad ynghylch pa mor beryglus yw ci.

Cynhaliodd Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin ymchwiliad byr ac ymgynghoriad ynghylch y Bil drafft ym mis Ebrill 2013. Nid yw adroddiad y Pwyllgor wedi'i gyhoeddi hyd yma.

²⁶ *Deddf Estraddodi 2003* (Pennod 41) [cyrchwyd ar 9 Mai 2013]

²⁷ *Deddf Cwn Peryglus 1991* (Pennod 65) [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *[Fil Rheoli Cwn \(Cymru\)](#)* ar gyfer ymgynghoriad rhwng mis **Tachwedd 2012** a mis **Mawrth 2013**.²⁸ Fodd bynnag, ar **2 Mai 2013**, gwnaeth Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, ddatganiad lle y dywedodd:

Mae'n glir i mi erbyn hyn, a finnau wedi adolygu'r gwaith ac wedi gwrandao ar yr ymatebion, y gallai fod manteision gweithio gyda Llywodraeth y DU i roi ein cynigion ar waith ar lefel Cymru a Lloegr. Rwyf wedi edrych ar amodau'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol drafft sy'n cael ei gyhoeddi gan y Swyddfa Gartref ac er fy mod yn cydnabod bod beiau i'w gweld yn y bil drafft, rwyf serch hynny yn credu y gallai fod yn gyfrwng defnyddiol i wireddu'n huchelgais. I'r perwyl hwn, rwyf am gael cytundeb y Swyddfa Gartref fod y bil, os caiff fynd yn ei flaen, yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Gymru a fydd yn caniatáu i ni lywio'r ddeddfwriaeth arfaethedig mewn ffordd a fydd yn bodloni ein dau amcan ni ynghyd ag amcanion ehangach y Swyddfa Gartref. **Rwyf felly wedi atal y gwaith ar Fil Rheoli Cwn (Cymru) am y tro** [*Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil*].²⁹

Bydd Bil Llywodraeth y DU yn gymwys i Gymru ac i Loegr, gyda rhai darpariaethau hefyd yn estyn i'r Alban ac i Ogledd Iwerddon. Maent yn ymwneud yn bennaf â **materion nad ydynt wedi'u datganoli**.

Serch hynny, gan fod gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol dros 'lechyd a lles anifeiliaid' o dan Bwnc 1 Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*³⁰, **mae'n debygol y bydd Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r darpariaethau cwn peryglus yn cael ei sbarduno yn y Cynulliad pan gaiff y Bil ei gyflwyno i Senedd y DU. Bydd angen cydsyniad y Cynulliad hefyd ar gyfer cymalau sy'n ymwneud â thai.**

3.3. Bil Gofal

Bwriad y Bil hwn yw cyflwyno nifer o ddiwygiadau i geisio gwella a symleiddio'r system gofal cymdeithasol yn Lloegr. Yn benodol, bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau i geisio:

- **diwygio gofal cymdeithasol** yn Lloegr drwy foderneiddio'r gyfraith gofal a chymorth i greu un statud; corffori hawl gofalwyr yn Lloegr i gael cymorth gan eu cyngor lleol; diwygio'r ffordd y caiff gofal a chymorth eu hariannu; sicrhau bod modd i bobl y mae angen gofal arnynt symud rhwng ardaloedd awdurdodau lleol; a darparu hawl gyfreithiol newydd i bawb i gyllideb bersonol;

²⁸ Llywodraeth Cymru, *[Ymgynghoriad: Cynigion ar gyfer Bil drafft Rheoli Cwn \(Cymru\)](#)*, 23 Tachwedd 2013 [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

²⁹ Llywodraeth Cymru, Alun Davies (Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd), *[Bil Drafft Rheoli Cwn \(Cymru\)](#)* Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 2 Mai 2013 [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

³⁰ *[Deddf Llywodraeth Cymru 2006](#)*, (Pennod 32) [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

- cyflwyno **sgoriau** tebyg i Ofsted ar gyfer **ysbytai a chartrefi gofal** yn Lloegr; rhoi pŵer i'r Prif Arolygydd Ysbytai newydd nodi problemau o ran ansawdd gofal; a pheri iddi fod yn drosedd droseddol i ddarparwyr ddarparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol am eu perfformiad;
- **sefydlu Addysg Iechyd Lloegr a'r Awdurdod Ymchwil Iechyd** fel cyrff cyhoeddus anadrannol i gryfhau addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac i ddiogelu a hyrwyddo buddiannau pobl ym maes ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.

Daw'r Bil yn sgil cyhoeddi'r ***Bil Gofal a Chymorth drafft*** ar 11 Gorffennaf 2012. Fe'i hystyriwyd gan Gyd-bwyllgor o'r ddau Dŷ Seneddol ym mis **Ionawr 2013**. Cyhoeddodd ei **adroddiad** ar **19 Mawrth 2013**, gan rybuddio nad yw'r Llywodraeth wedi ystyried yn llwyr oblygiadau'i diwygiadau gofal cymdeithasol ac y gallai beri i'r awdurdodau lleol fod yn agored i lu o anghydfodau a heriau cyfreithiol.³¹

Ni fydd y Bil ond yn gymwys i Loegr, ac eithrio darpariaethau trawsffiniol o ran gofal a chymorth a dyletswyddau cydweithredu'r Awdurdod Ymchwil Iechyd a fydd yn gymwys ar draws y DU. **I'r perwyl hwn, gallai darpariaethau penodol yn y Bil arwain at Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cynulliad.**

Amlinellwyd newidiadau arfaethedig i system gofal cymdeithasol Cymru ym ***Mil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*** a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Cynulliad ar **28 Ionawr 2013**. Mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad wrthi'n ystyried y Bil a disgwylir iddo roi adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil erbyn **21 Mehefin 2013**.

3.4. Bil Dadreoleiddio

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno Bil i ysgafnhau'r baich rheoleiddio gormodol ar fusnesau.³² Mae'r nodiadau briffio a ddarparwyd gyda'r araith yn ychwanegu y caiff y Bil ei gyhoeddi ar ffurf drafft ar gyfer gwaith craffu cyn deddfu cyn cael ei gyflwyno'n ffurfiol i Senedd y DU.³³

Yn arbennig, bydd y Bil yn cynnwys mesurau i ddiddymu beichiau ar fusnesau, cyrff cyhoeddus ac unigolion. O wneud hynny, ei nod yw diddymu deddfwriaeth nad oes iddi unrhyw ddefnydd ymarferol mwyach. Bydd y mesurau'n cynnwys:

- sefydlu dyletswydd i fynnu bod rheoleiddwyr aneconomaidd yn rhoi sylw i effaith eu gweithredoedd ar dwf;

³¹ Senedd y DU, Cyd-bwyllgor Dethol ar y Bil Gofal a Chymorth Drafft, ***Datganiad i'r wasg: Greater focus on prevention and integration essential to improve Care & Support Bill, warn Peers and MPs***, 19 Mawrth 2013 [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

³² GOV.UK, ***Datganiad llafar i Senedd y DU: Araith y Frenhines 2013***, 8 Mai 2013 [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

³³ GOV.UK, ***Araith y Frenhines 2013: nodiadau briffio***, 8 Mai 2013, tudalen 19 [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

- lleihau cyfnod cymhwyso **Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael o bum mlynedd i dair blynedd**;
- eithrio'r bobl hunangyflogedig hynny nad yw eu gweithgareddau gwaith yn peri unrhyw risg bosib o niwed i eraill rhag y **gyfraith iechyd a diogelwch**;
- diddymu pŵer tribiwnlysoedd cyflogaeth i wneud argymhellion ehangach mewn **achosion gwahaniaethu llwyddiannus** o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*;³⁴
- peidio â mynnu bod rhaid i gynghorau baratoi asesiadau ar ôl **dynodi parthau ansawdd aer** mwyach.

Mae nifer o feysydd y Bil hwn wedi'u cadw'n ôl, ond bydd rhai darpariaethau sy'n ymwneud â thai ac awdurdodau lleol o fewn pwerau'r Cynulliad a gall fod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Byddai'r rhain yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael. Mae nodiadau briffio Llywodraeth y DU yn datgan y bydd holl ddarpariaethau'r Bil yn estyn i Gymru ac i Loegr ac y bydd rhai hefyd yn estyn i'r Alban ac i Ogledd Iwerddon.³⁵

3.5. *Bil Mesothelioma*

Bydd y Bil hwn yn sefydlu cynllun taliadau ar gyfer pobl â '**mesothelioma ymledol**' (canser ar leinin yr ysgyfaint yn sgil dod i gysylltiad ag asbestos) lle nad oes modd dod o hyd i gwmni yswiriant atebolrwydd eu cyflogwr neu gyflogwyr. Bydd hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch datrys anghydfodau yswiriant penodol.

Bydd y Bil yn gwneud taliadau a ariennir drwy ardoll ar yswirwyr Atebolrwydd Cyflogwyr byw y DU ac, felly, daw yn sgil ymgynghori â'r diwydiant yswiriant, cyfreithwyr hawlwr a chynrychiolwyr hawlwr, a sicrhau eu cytundeb.

Dyma brif elfennau'r Bil:

- creu cynllun i'w ddefnyddio pan fydd popeth arall wedi methu a ariennir drwy ardoll ar farchnad Atebolrwydd Cyflogwyr y DU i unioni methiant y farchnad pan fydd yswirwyr wedi methu â chadw cofnodion digonol o yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr yn ystod cyfnodau hanesyddol pan oedd pobl yn dod i gysylltiad ag asbestos;
- sefydlu ardoll gorfodol statudol y bydd yn rhaid i'r holl yswirwyr atebolrwydd cyflogwyr sy'n gweithredu ar hyn o bryd ei dalu;

³⁴ *Deddf Cydraddoldeb 2010* (Pennod 15) [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

³⁵ GOV.UK, *Araith y Frenhines 2013: nodiadau briffio*, 8 Mai 2013, tudalen 21 [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

- sefydlu Pwyllgor Technegol i benderfynu ar anghydfodau ynghylch a oedd gan gyflogwr penodol yswiriant ar yr adeg y daeth unigolyn i gysylltiad ag asbestos, a darparu bod y penderfyniadau hynny'n derfynol.

Bydd y Bil hefyd yn sicrhau y gall unrhyw un a gaiff wybod bod arno mesothelioma o 25 Gorffennaf 2012 wneud cais i gael ei ddigolledu.

Mae'r Bil yn cwmpasu'r DU i gyd ac mae'n ymwneud yn bennaf â materion nad ydynt wedi'u datganoli.

Mae Bil cysylltiedig wrthi'n cael ei ystyried yn y Cynulliad. Cyflwynwyd [Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos \(Cymru\)](#) gan yr AC Llafur, Mick Antoni, ar 3 Rhagfyr 2012. Ei ddiben yw sicrhau, mewn achosion lle gwnaed taliadau digolledu o ran dioddefwr clefyd sy'n ymwneud ag asbestos, y bydd gan Lywodraeth Cymru hawl i adennill cost y driniaeth feddygol a ddarparwyd gan y GIG, a hynny lle caiff atebolrwydd ei addef ai peidio. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn creu unrhyw hawl gyfreithiol newydd i daliadau digolledu.

Yn yr Alban, mae [Deddf Iawndal \(Cyflyrau sy'n Gysylltiedig ag Asbestos\) \(Yr Alban\) 2009](#) yn caniatáu talu iawndal i ddioddefwyr â phlaciau plewrol, sef cyflwr sy'n gysylltiedig ag asbestos. Pasiodd Gogledd Iwerddon [Ddeddf](#) debyg yn 2011.

3.6. Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol

Nod y Bil yw cau'r Comisiwn Archwilio a gwneud trefniadau newydd i archwilio cyrff cyhoeddus lleol yn Lloegr. Archwilydd Cyffredinol Cymru a [Swyddfa Archwilio Cymru](#) sy'n gyfrifol am archwilio cyrff cyhoeddus mewn sectorau a ddatganolwyd yng Nghymru.

Yn ogystal â diddymu'r Comisiwn Archwilio, mae'r Bil hefyd yn bwriadu estyn darpariaeth refferendwm treth *Deddf Lleoliaeth 2011*³⁶ i ganiatáu i drethdalwyr lleol roi feto ar godiadau yn y dreth gyngor gan gwangos lleol nad ydynt wedi'u hethol yn Lloegr. Mae'r Bil hefyd yn bwriadu cryfhau statws cyfreithiol y [Cod Ymarfer a Argymhellir ar gyfer Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol](#) yn Lloegr.

Daw'r Bil yn sgil cyhoeddi'r [Bil Archwilio Lleol drafft](#) ar 6 Gorffennaf 2012. Bu'r Pwyllgor ad hoc ar y Bil Archwilio Lleol Drafft yn craffu arno cyn deddfu. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei [adroddiad](#) ar 17 Ionawr 2013.

Bydd y Bil yn gymwys i Loegr yn bennaf, ond bydd hefyd yn gymwys i rai awdurdodau trawsffiniol yng Nghymru sy'n gweithredu mewn sectorau nad ydynt wedi'u datganoli.

³⁶ [Deddf Lleoliaeth 2011](#) (Pennod 20) [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

3.7. *Bil Ynni*

Yn Araith y Frenhines, dywedwyd y bydd Llywodraeth y DU yn parhau â deddfwriaeth i ddiweddarau'r seilwaith ynni, sy'n cynnwys darpariaethau i ddiwygio'r farchnad drydan i ddarparu trydan glân a fforddiadwy i ddefnyddwyr.³⁷

Cyflwynwyd y [Bil Ynni](#) yn ystod y Sesiwn flaenorol ar **29 Tachwedd 2012** ac roedd yn destun cynnig cario drosodd ar **19 Rhagfyr 2012**. Mae wedi cyrraedd y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

Cyflwynir y Bil ar ôl i'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd gyhoeddi [Bil Ynni drafft](#) ar **22 Mai 2012**. Bu Pwyllgor Ynni a Newid Hinsawdd Tŷ'r Cyffredin hefyd yn craffu cyn deddfu ar y Bil drafft a chyhoeddodd ei [adroddiad](#) mewn tair cyfrol ar **23 Gorffennaf 2012**.

Mae holl ddarpariaethau'r Bil hwn yn gymwys i Gymru ond maent yn ymwneud yn bennaf â materion nad ydynt wedi'u datganoli gan fod cynhyrchu, dosbarthu a chyflenwi trydan, nwy ac olew a phŵer niwclear i gyd wedi'u rhestru fel eithriadau i bwerau'r Cynulliad yn Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.³⁸

3.8. *Bil drafft Hawliau Defnyddwyr*

Roedd Araith y Frenhines yn cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi Bil drafft i gydgrynhoi deddfwriaeth defnyddwyr mewn un man er mwyn rhoi hawliau cliriach i ddefnyddwyr yn y gyfraith. Bydd y Bil hefyd yn sicrhau bod hawliau defnyddwyr yn mynd bob yn gam â datblygiadau technolegol, a bydd hefyd yn darparu mesurau i ddiogelu defnyddwyr ochr yn ochr â mesurau i ysgafnhau'r baich rheoleiddio ar fusnesau.

Cyhoeddir y Bil drafft yn sgil [ymgyngoriad](#) a gynhaliwyd gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau rhwng mis **Gorffennaf** a mis **Hydref 2012**. Roedd yr ymgynghoriad yn amlinellu'r cynigion i ddiweddarau ac i gydgrynhoi deddfau diogelu defnyddwyr y DU, ynghyd â gofynion [Cyfarwyddeb Hawliau Defnyddwyr Ewrop](#), ar ffurf un 'Bil Hawliau Defnyddwyr'.

³⁷ GOV.UK, [Datganiad llafar i Senedd y DU: Araith y Frenhines 2013](#), 8 Mai 2013 [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

³⁸ [Deddf Llywodraeth Cymru 2006](#) (Pennod 32) [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

3.9. Bil Hapchwarae (Trwyddedu a Hysbysebu)

Bydd y Bil hwn yn estyn cwmpas y gyfundrefn reoleiddio bresennol sy'n rheoli hapchwarae o bell yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, a hynny er mwyn diogelu defnyddwyr yn well.

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i weithredwyr hapchwarae o bell sydd wedi'u lleoli yn y DU gael **trwydded gan y Comisiwn Hapchwarae**, tra bod gweithredwyr tramor yn cael eu rheoleiddio gan yr awdurdodaeth lle y maent wedi'u lleoli. O dan y Bil hwn, bydd hapchwarae o bell yn cael ei reoleiddio yn y man lle caiff ei ddefnyddio. Bydd yn ofynnol i unrhyw weithredwr sy'n gwerthu neu'n hysbysebu ym marchnad Prydain, boed o'r fan hon neu o dramor, gael trwydded gan Gomisiwn Hapchwarae'r DU.

Bydd y Bil yn cwmpasu'r DU i gyd, ond bydd yn ymwneud â **materion nad ydynt wedi'u datganoli**.

3.10. Bil Pensiynau

Roedd Araith y Frenhines yn cynnwys manylion Bil i greu pensiwn syml safonol sy'n annog pobl i gynilo ac sy'n helpu menywod sydd wedi cael seibiant gyrf hir³⁹.

Mae'r *Bil Pensiynau* yn cynnwys mesurau i gyflwyno system bensiynau un haen, **codi'r oedran pensiwn gwladol i 67** yn gynharach a darparu ar gyfer **adolygu'r oedran pensiwn gwladol yn rheolaidd**. Bydd hefyd yn cyflwyno system i drosglwyddo cronfeydd pensiwn bach yn awtomatig ac i ddiwygio budd-daliadau profedigaeth. Yn benodol, bydd y Bil yn:

- cyflwyno **pensiwn safonol** i'w bennu uwchlaw'r prawf moddion sylfaenol, a fydd yn disodli'r system ddwy haen bresennol (pensiwn gwladol sylfaenol a phensiwn gwladol ychwanegol sy'n gysylltiedig ag enillion), gyda'r nod o'i roi ar waith o fis Ebrill 2016;
- **codi'r oedran pensiwn gwladol i 67 wyth mlynedd yn gynharach** (rhwng 2026 a 2028);
- sicrhau bod modd **adolygu'r oedran pensiwn gwladol yn rheolaidd**, gan fod disgwyliad oes wedi cynyddu;
- darparu ar gyfer **trosglwyddo cronfeydd pensiwn bach segur yn awtomatig**;
- **diddymu ad-daliadau gwasanaeth byr** ar gyfer cynlluniau cyfraniadau diffiniedig sy'n seiliedig ar ymddiriedolaeth i bobl sy'n gadael cynllun cyn pen dwy flynedd;

³⁹ GOV.UK, [Araith y Frenhines 2013: nodiadau briffio](#), 8 Mai 2013, tudalen 59 [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

- cyflwyno system **drosoglwyddo awtomatig** er mwyn i gronfa bensiwn unigolyn ei ddilyn i'w gynllun pensiwn newydd pan fydd yn newid ei swydd;
- pennu **amcan statudol** newydd ar gyfer y **rheoleiddiwr pensiynau** i ystyried effaith pensiynau ar gyflogwyr;
- **diwygio budd-daliadau profedigaeth** drwy gyflwyno taliad cymorth profedigaeth (un budd-dal i gynorthwyo pobl yn sgil profedigaeth).

Mae'r system pensiynau cyhoeddus yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl, a bydd y Bil yn cwmpasu'r DU i gyd.

3.11. Bil Adsefydlu Troseddwyr

Roedd Araith y Frenhines hefyd yn cynnwys Bil i drawsnewid y modd y mae troseddwyr yn cael eu hadsefydlu yn y DU.⁴⁰ O ran y troseddwyr hynny sy'n **cwblhau dedfryd fer mewn carchar**, bydd eu cyfnod goruchwylio statudol ar ôl eu rhyddhau yn cynyddu i o leiaf 12 mis, gyda'r nod o ganiatáu i ddarparwyr prawf ymdrin â'r rhesymau dros aildroseddu. O ran **dedfrydau yn y gymuned**, bydd y Bil yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarparwyr prawf roi ymyriadau arloesol ac effeithiol ar waith. Dyma brif nodweddion y Bil:

- **cyflwyno trefniadau i oruchwylio** troseddwyr sy'n cwblhau dedfrydau o garchar am lai na 12 mis **ar ôl eu rhyddhau**;
- **estyn trefniadau i oruchwylio** troseddwyr sy'n cwblhau dedfrydau o garchar sy'n para rhwng blwyddyn a dwy flynedd **ar ôl eu rhyddhau**;
- **estyn cyfnod y drwydded** oruchwylio i 12 mis ym mhob achos;
- **estyn y darpariaethau goruchwylio** i droseddwyr sy'n cael eu dedfrydu pan fyddant o dan 18 oed, ond sy'n troi'n 18 oed cyn cael eu rhyddhau;
- **peri iddi fod yn ofynnol i droseddwyr sy'n defnyddio cyffuriau fynd i apwyntiadau triniaeth**, ac ehangu'r categorïau o gyffuriau y gall fod yn ofynnol i droseddwyr gael prawf ar eu cyfer (o ddsbarth A i ddsbarth B);
- diwygio'r **gorchmynion cymunedol a'r gorchmynion dedfryd ohiriedig**;
- galluogi darparwyr prawf i fynnu bod troseddwyr yn mynd i **apwyntiadau neu weithgareddau sy'n eu helpu i adsefydlu**;
- peri iddi fod yn ofynnol i droseddwyr sy'n cwblhau dedfrydau yn y gymuned **ofyn am ganiatâd** (yn lle rhoi gwybod, fel y maent ar hyn o bryd) **cyn symud o'u hardal leol**.

Mae cyfiawnder troseddol yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl, a bydd y Bil ar y cyfan yn estyn i Gymru ac i Loegr.

⁴⁰ GOV.UK, [Araith y Frenhines 2013: nodiadau briffio](#), 8 Mai 2013, tudalen 68 [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

3.12. Bil Cyfraniadau Yswiriant Gwladol

Roedd Araith y Frenhines yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno Bil i greu Lwfans Cyflogaeth newydd i gefnogi swyddi ac i helpu busnesau bach.⁴¹ Bydd y Bil yn cynnwys darpariaeth i geisio:

- lleihau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr, o fis Ebrill 2014, drwy roi hawl i bob busnes ac elusen gael **Lwfans Cyflogaeth o £2,000**;
- estyn y **[Rheol Gwrth-gamdddefnydd Gyffredinol](#)** i gynnwys Cyfraniadau Yswiriant Gwladol;
- atal pobl rhag defnyddio **cwmnïau cyflogres cyflogaeth tramor** (cyfryngwyr) i osgoi Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr;
- diddymu'r **rhagdybiaeth hunangyflogaeth** ar gyfer aelodau partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig.

Mae Cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl, a bydd y Bil yn cwmpasu'r DU i gyd.

3.13. Bil Eiddo Deallusol

Roedd Araith y Frenhines yn cynnwys manylion Bil i'w gwneud yn haws i fusnesau ddiogelu'u heiddo deallusol.⁴² Yn benodol, bydd y Bil yn rhoi diwygiadau ar waith yn sgil **[Adolygiad Hargreaves o Eiddo Deallusol a Thwf](#)**, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2011.

Nod y Bil yw cyflwyno un system batentau. Bydd yn sicrhau bod modd i fusnesau Prydain ddiogelu'u dyfeisiadau ar draws holl wledydd yr UE drwy wneud un cais. Mae hefyd yn bwriadu cryfhau'r gyfraith dylunio a'i gwneud yn haws ei deall, yn ogystal â chaniatáu i'r DU rannu gwybodaeth am geisiadau i gael patent nas cyhoeddwyd i helpu i glirio'r ceisiadau presennol sy'n aros i gael eu prosesu ac i gyflymu'r cyfnodau clirio.

Mae Eiddo Deallusol yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl, a bydd y Bil yn cwmpasu'r DU i gyd.

3.14. Bil Hybrid Rheilffordd Cyflymder Uchel 2

Bydd y Bil yn rhoi pwerau cyfreithiol i Lywodraeth y DU er mwyn iddi gaffael yn orfodol y tir sydd ei angen i adeiladu rheilffordd Cyflymder Uchel 2 ('HS2') a'i gweithredu. Pan ddaw'n Ddeddf, bydd yn rhoi caniatâd cynllunio tybiedig i Lywodraeth y DU er mwyn cyflawni'r cynllun. Bydd y Bil yn gymwys i Loegr yn bennaf, ond bydd rhai mesurau'n estyn i Gymru ac i'r Alban, er eu bod **yn debygol o fod yn gymwys i faterion nad ydynt wedi'u datganoli**.

⁴¹ GOV.UK, [Datganiad llafar i Senedd y DU: Araith y Frenhines 2013](#), 8 Mai 2013 [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

⁴² Ibid

Mae Biliau Hybrid yn cymysgu nodweddion Biliau cyhoeddus a phreifat. Mae'r newidiadau i'r gyfraith a gynigir gan Fil Hybrid yn effeithio ar y cyhoedd, ond maent yn effeithio'n sylweddol ar unigolion neu grwpiau penodol hefyd. Caiff y rheini sy'n gwrthwynebu Biliau Hybrid gyflwyno deisebau, a gall unigolion a grwpiau penodol ddatgan eu hachos gerbron un o bwyllgorau dethol y Senedd.⁴³

3.15. *Bil Rheilffordd Cyflymder Uchel (Paratoi)*

Bydd y Bil yn rhoi pwerau gwario i Lywodraeth y DU er mwyn ariannu gwaith fel cyflawni gwaith dylunio manylach/gosod contractau ar gyfer dylunio adeiledd y rheilffordd a chyflawni ymchwiliadau tir ac arolygon ecolegol. Bydd hefyd yn rhoi caniatâd seneddol i ddigolledu'r rheini y bydd y gwaith o adeiladu a gweithredu'r rhwydwaith rheilffordd cyflymder uchel newydd yn effeithio arnynt. Bydd y Bil yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban, ond **mae'n debygol y bydd yn ymwneud â materion nad ydynt wedi'u datganoli.**

3.16. *Bil Mewnfudo*

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn bwriadu cyflwyno Bil i ddiwygio'r gyfraith mewnfudo. Bydd yn cynnwys darpariaethau i gryfhau'r pwerau gorfodi ac i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus.⁴⁴ Bydd y Bil yn:

- galluogi **camau i gael eu cymryd yn erbyn busnesau sy'n defnyddio llafur anghyfreithlon**, gan gynnwys dirwyon mwy sylweddol;
- rheoleiddio **mynediad at y GIG** gan fewnfudwyr, gan sicrhau bod mewnfudwyr dros dro'n cyfrannu;
- mynnu bod landlordiaid preifat yn **gwirio statws mewnfudo** tenantiaid;
- atal mewnfudwyr anghyfreithlon rhag cael **trwydded yrru'r DU**;
- sicrhau **hawl apelio** dim ond yn yr achosion hynny lle mae'r materion mewnfudo pwysicaf yn codi;
- cau nifer o fylchau ym mhwerau'r swyddogion gorfodi;
- gosod sylfaen statudol ar gyfer polisi mewnfudo Llywodraeth y DU, gan beri iddi fod yn ofynnol i'r llysoedd adlewyrchu **cydbwysedd o ran budd y cyhoedd** pan fyddant yn dyfarnu mewn achosion mewnfudo.

Mae mewnfudo'n fater sydd wedi'i gadw'n ôl, a bydd y Bil yn gymwys ar draws y DU. Fodd bynnag, o gofio bod y GIG wedi'i ddatganoli, gallai fod angen Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â rhai darpariaethau.

⁴³ Ffeithlen Tŷ'r Cyffredin, *Biliau Hybrid*, [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

⁴⁴ GOV.UK, *Araith y Frenhines 2013: nodiadau briffio*, 8 Mai 2013, tudalen 65 [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

3.17. Bil Diwygio Amddiffyn

Bydd y Bil yn galluogi'r Weinyddiaeth Amddiffyn i newid y ffordd y mae'n caffael ac yn cefnogi offer amddiffyn drwy ddiwygio'r sefydliad Cyfarpar a Chymorth Amddiffyn. Bydd hefyd yn newid y trefniadau ar gyfer caffael o un ffynhonnell (anghystadleuol), a bydd yn cynyddu maint a rôl y Lluoedd Wrth Gefn.

Mae amddiffyn yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl, a bydd y Bil yn gymwys ar draws y DU.

3.18. Bil Cymeradwyaethau'r UE

Nod y Bil hwn yw caniatáu i'r DU gefnogi mesurau a rhaglenni yn yr Undeb Ewropeaidd o dan *Ddeddf Undeb Ewropeaidd 2011*.⁴⁵ Dyma'r rhaglenni:

- **Pericles:** rhaglen gyfnewid, cynorthwyo a hyfforddi i ddiogelu'r ewro rhag ffugio arian.
- **Archifau hanesyddol:** Rheoliad arfaethedig i sicrhau y bydd modd cael mynediad yn y dyfodol at archifau hanesyddol y sefydliadau Ewropeaidd, ar bapur ac ar ffurf ddigidol, mewn un lleoliad, sef Sefydliad yr Undeb Ewropeaidd yn Fflorens.
- **Ewrop i Ddinasyddion:** ei nod yw hybu camau i gofio hanes Ewrop, yn enwedig rhyfeloedd a chyfundrefnau totalitaraidd yr ugeinfed ganrif. Mae hefyd yn bwriadu meithrin dealltwriaeth o'r UE, ei hanes a'i brosesau llunio polisi, ac annog cyfranogiad dinesig yn yr UE.

Mae cysylltiadau â'r Undeb Ewropeaidd wedi'u cadw'n ôl gan mwyaf a bydd y Bil yn gymwys ar draws y DU.

3.19. Bil Gogledd Iwerddon

Roedd Araith y Frenhines yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno nifer o newidiadau technegol a fydd yn **gwella'r ffordd y mae gwleidyddiaeth a sefydliadau Gogledd Iwerddon yn gweithredu**. Bydd y newidiadau hyn yn adlewyrchu rhai o'r cynigion y bwriedir eu cynnwys ym *Mil drafft Cymru*. Yn eu plith mae:

- gwella tryloywder o ran rhoddion a benthyciadau i'r pleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon;
- rhoi terfyn ar 'swyddi dwbl' lle mae gan Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon fandad deuol i eistedd fel Aelodau o Dŷ'r Cyffredin neu fel Teachtaí Dála yn y Dáil Éireann ar yr un pryd;
- newid prosesau penodi a diswyddo Gweinidog Cyfiawnder Gogledd Iwerddon;
- estyn hyd cyfnodau Cynulliad Gogledd Iwerddon i bum mlynedd;

⁴⁵ [Deddf Undeb Ewropeaidd 2011](#) (Pennod 12) [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

- pennu maint Cynulliad Gogledd Iwerddon yn y dyfodol;
- caniatáu camau posib i ddatganoli swyddogaethau sy'n ymwneud â Chomisiwn Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon, Comisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon ac ardaloedd etholiadol rhanbarthol;
- gwella gweinyddiaeth etholiadau yng Ngogledd Iwerddon, yn sgil argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol a Phrif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon yn eu hadroddiad ym mis Tachwedd 2012, [Continuous electoral registration in Northern Ireland](#).
- Cyflwynir y Bil yn sgil ymgynghoriad ar [Fil Drafft Gogledd Iwerddon \(Darpariaethau Amrywiol\)](#) a gyhoeddwyd ar 11 Chwefror 2013. Bu Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon yn craffu cyn deddfu ar y Bil. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei [adroddiad](#) ar 25 Mawrth 2013.

Dim ond yng Ngogledd Iwerddon y bydd y Bil hwn yn gymwys.

4. Biliau a gariwyd drosodd o Sesiwn 2012-13

Yn ychwanegol at y *Bil Ynni* y soniwyd amdano uchod, roedd pedwar Bil arall yn destun cynnig cario drosodd o Sesiwn flaenorol 2012-13.

4.1. *Bil Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw)*

Cyflwynwyd y [***Bil Priodas \(Cyplau o'r Un Rhyw\)***](#) ar 24 Ionawr 2013 ac roedd yn destun cynnig cario drosodd ar 5 Chwefror 2013. Mae'r Bil hwn yn gymwys i Gymru ac i Loegr. Mae'r Bil wedi cyrraedd y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

O dan y ddeddfwriaeth gyfredol ar briodasau, mae dyletswydd ar yr Eglwys yng Nghymru i weinyddu priodasau. Nod y Bil yw diddymu'r ddyletswydd hon o ran priodasau cyplau o'r un rhyw, oherwydd nad yw deddfau'r Eglwys yng Nghymru'n caniatáu i gyplau o'r un rhyw briodi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae cymal 8 y Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y posibilrwydd y bydd yr Eglwys yng Nghymru'n penderfynu caniatáu i gyplau o'r un rhyw briodi. Mae cymal 8 yn datgan y caiff yr Arglwydd Ganghellor gyflwyno gorchymyn yn Senedd y DU a fyddai'n diwygio'r gyfraith priodasau yn y modd hwnnw.

Mae Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad wedi cynnal ymchwiliad i'r mater hwn, sef *Deddfu a'r Eglwys yng Nghymru*.⁴⁶

4.2. *Bil Plant a Theuluoedd*

Cyflwynwyd y [***Bil Plant a Theuluoedd***](#) ar 4 Chwefror 2013 ac roedd yn destun cynnig cario drosodd ar 25 Chwefror 2013. Mae'n gymwys i Loegr yn bennaf, ond mae rhai darpariaethau'n effeithio ar Gymru. Mae'r Bil wedi cyrraedd y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

Ar 12 Chwefror 2012, cyflwynodd Llywodraeth Cymru [***Femorandwm a Chynnig Cydsyniad Deddfwriaethol***](#) mewn perthynas â'r darpariaethau a ganlyn yn y Bil:

- datgymhwyso, o ran Cymru, y Gofrestr Deddf Mabwysiadu a Phlant;
- rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru i ganiatáu iddynt ragnodi drwy reoliadau y terfynau amser i awdurdodau lleol o ran paratoi Cynllun Gofal.

Cytunodd y Cynulliad ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ei gyfarfod llawn ar 16 Ebrill 2013.⁴⁷

Yn ychwanegol at y meysydd a amlinellwyd uchod, mae Nodiadau Esboniadol y Bil yn datgan bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu ceisio Cynnig Cydsyniad

Deddfwriaethol atodol o ran y meysydd a ganlyn yn y Bil:

⁴⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [*Ymchwiliad i Ddeddfu a'r Eglwys yng Nghymru*](#), Mai 2013 [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

⁴⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, [*Cyfarfod Llawn: Bil Plant a Theuluoedd*](#) 16 Ebrill 2013 [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

- Adran 12 o'r Bil sy'n cyflwyno 'gorchymyn trefniadau plentyn' newydd sy'n effeithio ar bŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau. Nid yw'r pŵer yr effeithir arno'n perthyn i faes sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ond mae'r newidiadau'n effeithio ar faes lle mae gan Weinidogion Cymru gymhwysedd gweithredol ac felly mae angen eu caniatâd.⁴⁸
- Rhan 3 o'r Bil sy'n gwneud darpariaethau sy'n diwygio'r system anghenion addysgol arbennig. Mae'r darpariaethau hyn yn estyn i Gymru ac i Loegr, ond dim ond i Loegr y mae'r mwyafrif yn gymwys. Gan hynny, bydd rhai effeithiau trawsffiniol yn codi, pan fydd plentyn neu berson ifanc yn Lloegr yn mynd i ysgol neu sefydliad yng Nghymru.⁴⁹

Hyd yma, fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y darpariaethau penodol hyn.

Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau **sy'n gymwys i Gymru ond o ran materion nad ydynt wedi'u datganoli**. Yn eu plith mae:

- Rhan 2 o'r Bil sy'n trafod darpariaethau sy'n ymwneud â chyfiawnder teuluol;
- Rhan 5 o'r Bil sy'n diwygio Swyddfa'r Comisiynydd Plant. Bydd y newidiadau hyn yn gymwys i rôl y Comisiynydd o ran hyrwyddo a gwarchod hawliau plant yng Nghymru, ond dim ond mewn perthynas â materion nad ydynt wedi'u datganoli;
- Rhannau 6, 7, ac 8 o'r Bil sy'n ymwneud â hawliau statudol i absenoldeb a thâl a gweithio oriau hyblyg.

4.3. *Bil Gwasanaethau Ariannol (Diwygio'r Banciau)*

Cyflwynwyd y [***Bil Gwasanaethau Ariannol \(Diwygio'r Banciau\)***](#) ar 4 Chwefror 2013 ac roedd yn destun cynnig cario drosodd ar 11 Mawrth 2013. Mae'r Bil wedi cyrraedd y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin. **Mae Gwasanaethau Ariannol yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl ac mae'r Bil yn gymwys i'r DU i gyd.**

4.4. *Bil Cyllid (Rhif 2)*

Cyflwynwyd [***Bil Cyllid \(Rhif 2\)***](#) ar 25 Mawrth 2013 ac roedd yn destun cynnig cario drosodd ar 15 Ebrill 2013. Cyflwynir Biliau Cyllid ar ôl y Gyllideb. Mae'r Bil wedi cyrraedd y cyfnod pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. **Mae polisïau cyllidol, economaidd ac ariannol yn faterion sydd wedi'u cadw'n ôl, ac mae'r Bil yn gymwys i'r DU i gyd.**

⁴⁸ Senedd y DU, [***Bil Plant a Theuluoedd: Nodiadau Esboniadol***](#), 4 Chwefror 2013, paragraff 38 [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

⁴⁹ Ibid, paragraff 39

5. Biliau drafft a gyhoeddwyd ac sydd o ddiddordeb

Cyhoeddwyd nifer o Filiau drafft gan Lywodraeth y DU ers dechrau sesiwn 2010-12.⁵⁰ Isod, ceir crynodeb o'r rheini sydd fwyaf perthnasol i Gymru ac i'r Cynulliad:

5.1. *Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau*

Cyhoeddwyd y [*Bil drafft Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau*](#) ar **16 Ebrill 2013**. O dan y cynigion hyn, bydd yn drosedd i unrhyw weithredwr syrcas ddefnyddio anifail gwyllt mewn perfformiad neu arddangosfa mewn syrcas deithiol yn Lloegr, a bydd rhaid i bob syrcas deithiol yn Lloegr rhoi terfyn ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn perfformiadau erbyn mis Rhagfyr 2015.⁵¹ Ar hyn o bryd, mae 20 anifail gwyllt trwyddedig yn gweithio mewn syrcasau, gan gynnwys camelod, sebras a nadredd, ond nid eliffantod, mwncïod, gorilaod, tsimpansiad na chathod mawr.⁵²

Yn 2011, pasiwyd cynnig mainc gefn a gyflwynwyd gan yr AS Ceidwadol, Mark Pritchard, yn galw am waharddiad, a hynny heb bleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin. Fodd bynnag, yn 2012, cyflwynodd Llywodraeth y DU *Reoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012*⁵³ a oedd yn cyflwyno cyfundrefn drwyddedu, yn hytrach na gwaharddiad llwyr. Yng ngoleuni hyn, cyflwynodd yr AS Llafur, Thomas Docherty, Fil Aelod preifat ar **25 Mehefin 2012** yn galw am waharddiad llwyr. Mae'r Bil hwnnw wedi'i dynnu'n ôl erbyn hyn, oherwydd na ellir cario Bil Aelod preifat drosodd i sesiwn nesaf Senedd y DU.⁵⁴

Mae'r gyfundrefn drwyddedu sydd ar waith ar hyn o bryd yn gymwys i Loegr yn unig, ac er y bydd y Bil drafft ei hun yn estyn i Gymru ac i Loegr, dim ond yn Lloegr y bydd y drosedd o ddefnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol yn gymwys.

Yng Nghymru, mae *Deddf Lles Anifeiliaid 2006*⁵⁵ yn gymwys ac mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth i hybu lles anifeiliaid. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd hefyd i wneud deddfwriaeth sylfaenol ar faterion sy'n ymwneud ag 'lechyd a lles anifeiliaid' yn rhinwedd Pwnc 1 Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.⁵⁶ Nid yw'n wybyddus bod unrhyw syrcasau preswyl yng Nghymru sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn perfformiadau.⁵⁷

⁵⁰ Mae rhestr lawn o'r Biliau drafft a gyhoeddwyd ar gael ar y dudalen we [*Biliau Drafft Senedd y DU*](#)

⁵¹ Dadl yn Nhŷ'r Cyffredin 16 Ebrill 2013 [*c27WS*](#) [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

⁵² Gwefan y BBC, [*Circuses to face wild animal ban*](#), 16 Ebrill 2013 [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

⁵³ [*Rheoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol \(Lloegr\) 2012*](#) (OS 2012/2932) [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

⁵⁴ Rheol Sefydlog 80A(5), [*Rheolau Sefydlog Ty'r Cyffredin*](#), 18 Medi 2012, [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

⁵⁵ [*Deddf Lles Anifeiliaid 2006*](#) (Pennod 45) [cyrchwyd ar 8 Mai 2013]

⁵⁶ [*Deddf Llywodraeth Cymru 2006*](#) (Pennod 32) [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

⁵⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [*SUB-LD7404-EM*](#), Memorandwm Esboniadol Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2009, 27 Chwefror 2009 [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

Cyflwynodd Rebecca Evans AC gynnig ar gyfer Bil a gynigir gan Aelod, sef *Bil Gwahardd Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Cymru)*,⁵⁸ i'r balot a gynhaliwyd ar **24 Ebrill 2013**. Fodd bynnag, ni chafodd y cynnig ei ddewis yn y balot.

5.2. Galw Aelodau Seneddol yn Ôl

Ym mis **Rhagfyr 2011**, cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet *Fil drafft Galw Aelodau Seneddol yn Ôl*. Nod y Bil drafft oedd cyflwyno pŵer galw yn ôl a fyddai'n caniatáu i etholwyr fynnu bod is-etholiad yn cael ei gynnal pe bai AS wedi cyflawni camwedd difrifol a phe bai 10% o'i etholwyr wedi llofnodi deiseb yn galw am is-etholiad.⁵⁹

Bu Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin yn craffu cyn deddfu ar y Bil drafft rhwng **mis Ionawr a mis Ebrill 2012**. Roedd [adroddiad](#) y Pwyllgor, a gyhoeddwyd ar **28 Mehefin 2012**, yn feirniadol iawn o ddull Llywodraeth y DU a galwodd arni i roi'r gorau i'w chynlluniau i gyflwyno pŵer i alw Aelodau Seneddol yn ôl ac i ddefnyddio'r amser seneddol y byddai hyn yn ei ryddhau yn well.⁶⁰

[Ymatebodd](#) Swyddfa'r Cabinet i adroddiad y Pwyllgor ar **22 Hydref 2012**, gan ddweud ei bod yn parhau i fod wedi ymrwymo i gyflwyno dull o alw Aelodau Seneddol yn ôl ac y bydd yn ystyried argymhellion y Pwyllgor ymhellach ochr yn ochr ag ymgynghori manwl a gofalus â'i rhanddeiliaid wrth benderfynu ar ei pholisi ynghylch galw yn ôl.⁶¹

Ceir mwy o wybodaeth am y Bil drafft a'i effaith ar Aelodau Seneddol o Gymru ac Aelodau'r Cynulliad ym [Mhapur Ymchwil y Cynulliad: Bil drafft Galw Aelodau Seneddol yn Ôl](#).

5.3. Lobio

Ar **20 Ionawr 2012**, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddogfen ymgynghori o dan y teitl [Introducing a Statutory Register of Lobbyists](#). Ar yr un diwrnod, sefydlodd Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin ei ymchwiliad a'i ymgynghoriad ei hun ynghylch y cynigion. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei [adroddiad](#) beirniadol iawn ar **13 Gorffennaf 2012**, gan alw ar y Llywodraeth i roi'r gorau i'w chynlluniau i gyflwyno cofrestr statudol o lobïwyr.⁶²

⁵⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Balots ar gyfer Biliau, [Bil-039 Rebecca Evans](#), [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

⁵⁹ Senedd y DU, [Biliau Drafft 2010-12](#) [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

⁶⁰ Senedd y DU, Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, [Datganiad i'r wasg: Committee criticises Government's proposals to introduce a power of recall for MPs](#), 28 Mehefin 2012 [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

⁶¹ Senedd y DU, Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, [Recall of MPs: Government response to the Committee's First Report of Session 2012-13](#), 22 Hydref 2012, paragraff 71 [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

⁶² Senedd y DU, Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, [Datganiad i'r wasg: Plans for statutory register of lobbyists should be scrapped, say MPs](#) 13 Gorffennaf 2012 [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

Cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet grynodedb o'r ymatebion i'w hymgyngoriad ym mis **Gorffennaf 2012**, ynghyd â braslun o'r camau nesaf er mwyn datblygu'r polisi. Yn rhagarweiniad y crynodeb, nodir y bydd cynigion polisi diwygiedig yn cael eu cyhoeddi ar ffurf Papur Gwyn a Bil drafft yn ystod y sesiwn hon o'r Senedd.⁶³

Ar **2 Mai 2013**, cyhoeddodd Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Cynulliad ei adroddiad am **Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol**. Nid aeth yr adroddiad mor bell â galw am gofrestr statudol o lobïwyr, ac yn hytrach bu iddo argymhell 'bod canllawiau ar lobïo a mynediad at Aelodau yn cael eu mabwysiadu drwy benderfyniad gan y Cynulliad'.⁶⁴

Cydnabu'r adroddiad hefyd fod 'gan y Cynulliad eisoes systemau cadarn i sicrhau ei fod yn dryloyw ac yn agored wrth ymdrin â sefydliadau allanol ac unigolion'.⁶⁵

5.4. Braint Seneddol

Cafodd ymrwymiad i gyflwyno Bil drafft ar ddiwygio braint seneddol ei gynnwys am y tro cyntaf yn Araith y Frenhines ar gyfer Sesiwn 2010-12.⁶⁶ Er nad oes Bil drafft wedi'i gyflwyno hyd yma, cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet **ymgyngoriad ar Bapur Gwyrdd** rhwng mis Ebrill a mis Medi 2012. Yn benodol, cododd y Papur Gwyrdd gwestiwn ynghylch a oes angen cyflwyno newidiadau i sicrhau nad yw braint yn rhoi imiwnedd amhriodol i seneddwyr rhag erlyniad troseddol, a hynny er mwyn atgyfnerthu'r egwyddor o driniaeth deg a chyfartal o ran y gyfraith'.⁶⁷

Mae Cyd-bwyllgor o'r ddau Dŷ yn Senedd y DU wrthi'n craffu ar y Papur Gwyrdd.⁶⁸ Mae'n ofynnol i'r Cyd-bwyllgor roi adroddiad erbyn **28 Gorffennaf 2013**.

⁶³ Swyddfa'r Cabinet, *A Summary of Responses to the Cabinet Office's Consultation Document 'Introducing a Statutory Register of Lobbyists'*, Gorffennaf 2012, tudalen 4 [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

⁶⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, *Adroddiad 03-13 i'r Cynulliad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol*, Mai 2013, tudalen 18 [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

⁶⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Datganiad i'r wasg: Adroddiad Pwyllgor yn cadarnhau bod gan y Cynulliad Cenedlaethol ymagwedd dryloyw ac agored tuag at lobïo*, 2 Mai 2013 [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

⁶⁶ Gwefan Rhif 10, *Araith y Frenhines - Bil Drafft Braint Seneddol*, 25 Mai 2010 [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

⁶⁷ Swyddfa'r Cabinet, *Braint Seneddol*, 26 Ebrill 2012, tudalen 5 [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]

⁶⁸ Senedd y DU, *Cyd-bwyllgor Dethol ar Frait Seneddol* [cyrchwyd ar 7 Mai 2013]